# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 07-06 (p2)

### Dyddiad: 27 Medi 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Dogfen Ymgynghori Rhaglenni Cydgyfeirio Cronfeydd Strwythurol 2007 - 2013

#### Diben

1. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur ac i drafod ei ymateb i ymgynghoriad y Rhaglenni Cydgyfeirio. Mae'r ddogfen Ymgynghori a'r Dogfennau Ategol cefndirol i'w gweld drwy'r ddolen isod: http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?Lang=cy&action=newsdetail&ID=1762 Mae copïau wedi'u hargraffu o'r ddwy ddogfen hefyd wedi eu hanfon at holl aelodau'r Pwyllgor.

#### Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn rhoi amcan amlinellol o gynnwys dogfen Ymgynghori'r Rhaglenni Cydgyfeirio (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a lansiwyd ar ffurf electronig gennyf i yn Adeilad Porth Tredomen ddydd Gwener 28 Gorffennaf. Mae crynodeb byr o'r holl flaenoriaethau a themâu, ar gyfer ERDF a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, yn Atodiad A, ac mae'r rhestr o'r cwestiynau i'r ymgynghoriad sydd yn y ddogfen wedi ei hatodi yn Atodiad B.

#### Cefndir

3. Mae'r ddogfen ymgynghori yn manylu ar y weledigaeth, y strategaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd dros y cyfnod 2007-2013 gyda chefnogaeth y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd - Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

4. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion a dyheadau'r rhanbarth, ynghyd ag asesiad o'r gwersi a ddysgwyd o dan y rhaglenni presennol. Fe'i datblygwyd yng nghyd-destun amcanion agendâu Lisbon a Gothenburg yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer diwygio economaidd cynaliadwy, a pholisïau cenedlaethol allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys Cymru: Gwlad Well, Cynllun Gofodol Cymru, Cymru: Economi yn Ffynnu, y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth, y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru a Creu'r Cysylltiadau.

5. Yn unol â fframwaith Cymru: Economi yn Ffynnu, a strategaeth Lisbon, bydd y rhaglenni newydd yn canolbwyntio mwy fyth ar hybu twf a chynyddu nifer y swyddi.

#### Y Weledigaeth ar gyfer y Rhanbarth Cydgyfeirio

6. Datblygwyd y blaenoriaethau ar gyfer y rhaglenni (ERDF a Chronfa Gymdeithasol Ewrop) er mwyn gweithredu ein gweledigaeth ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fel rhanbarth entrepreneuraidd, bywiog sy'n flaengar ym maes datblygu cynaliadwy.

## Blaenoriaethau

7. Y blaenoriaethau a argymhellir yw:

Gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf (ERDF);
Creu amgylchedd busnes ffafriol (ERDF);
Adeiladu cymunedau cynaliadwy (ERDF);
Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd (Cronfa Gymdeithasol Ewrop);
Gwella lefelau sgiliau a gwella hyblygrwydd y gweithlu (Cronfa Gymdeithasol Ewrop);
Creu'r Cysylltiadau: moderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus (Cronfa Gymdeithasol Ewrop)

8. Amlinellwyd ffocws arfaethedig cyffredinol pob blaenoriaeth gerbron y Pwyllgor mewn cyfarfod blaenorol (10 Mai), fel rhan o'r drafodaeth ar bennod Cymru yn Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU. (Gweler Atodiad A).

## Themâu Trawsbynciol

9. Mae'r rheoliadau drafft ar gyfer y rhaglenni newydd yn rhagweld y bydd Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Chyfle Cyfartal yn parhau fel themâu trawsbynciol. Bydd gofyn i bob prosiect sy'n gwneud cais am arian o dan y rhaglenni newydd ac sy'n llwyddiannus, ddangos sut yr ystyriwyd y themâu hyn. Mae'r thema drawsbynciol bresennol, TGCh, yn cael ei phrif ffrydio fel rhan o'r rhaglenni newydd o ganlyniad i'r cynnydd a wnaed yng nghyfnod y rhaglen bresennol.

## Dyrannu adnoddau

10. Mae'r Cyngor Ewropeaidd wedi cytuno y dylid paratoi'r holl adnoddau perthnasol, gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol, er mwyn cefnogi strategaeth Lisbon, ac mae wedi cytuno ar yr hyn a elwir yn "dargedau clustnodi Lisbon" er mwyn cysylltu buddsoddiadau Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol yn agosach â blaenoriaethau Lisbon. Rhaid i isafswm o 60 y cant o adnoddau Cydgyfeirio fod yn uniongyrchol gysylltiedig â chefnogi blaenoriaethau Lisbon.

11. Yn nogfen ymgynghori'r rhaglenni Cydgyfeirio rydym yn cynnig y dylid mynd yn uwch na'r lleiafswm hwn a chysylltu 65 y cant o adnoddau â buddsoddiadau Lisbon. Credwn fod hyn yn unol â'r anghenion strategol a nodwyd yn fframwaith Cymru: Economi yn Ffynnu, a'r hyn sy'n ofynnol yn y rhanbarth er mwyn creu economi arloesol sy'n seiliedig ar wybodaeth.

12. Bydd gwella lefelau sgiliau a chynyddu cyfraddau cyflogaeth yn ganolog i'r gwaith o wella cynaliadwyedd economaidd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Cynigir felly y dylid cynyddu'r gyfran o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y rhaglenni Cydgyfeirio newydd i 40 y cant, sy'n

uwch na'r gyfran bresennol o 35 y cant yn y rhaglen Amcan 1 bresennol.

13. Datblygwyd y rhaglenni Cydgyfeirio ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (ERDF a Chronfa Gymdeithasol Ewrop) gyda'i gilydd, gan sicrhau y bydd y blaenoriaethau yn cydategu ac yn ychwanegu gwerth at ei gilydd. Bydd hyn yn hwyluso hyblygrwydd rhwng y cronfeydd, yn enwedig ym meysydd arloesedd, sgiliau, cyflogaeth a chymunedau cynaliadwy. Bydd mwy o gyfleoedd hefyd i gefnogi camau gweithredu arloesol a phrosiectau cydweithredu trawswladol.

## Gweithredu

14. Seilir y rhaglenni newydd ar strwythur symlach. Bydd rhaglenni a ariennir trwy un ffynhonnell, a threfnir rhaglenni yn ôl blaenoriaeth yn hytrach nag ar lefel mesur. Golyga hyn y bydd y 6 blaenoriaeth a'r 37 mesur presennol yn rhaglen Amcan 1 yn cael eu disodli gan 6 blaenoriaeth yn unig.

15. Rydym am sicrhau bod y rhaglenni newydd yn cael hyd yn oed mwy o effaith drwy fabwysiadu ymagwedd fwy strategol tuag at weithredu, trwy symleiddio trefniadau a bod yn fwy cydgysylltiedig. Ein bwriad yw rhoi'r rhaglenni newydd ar waith drwy fframweithiau strategol, er y bydd peth cyfle ar gyfer trefniadau gwneud cais mwy cyfarwydd a chomisiynu uniongyrchol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Bydd angen i sefydliadau gynnig syniadau cadarn, yng nghyd-destun fframweithiau strategol, sy'n dangos yn eglur sut y byddant yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Rhaglenni, a darparu gweithgareddau a fydd hefyd yn rhoi agenda Lisbon o dwf economaidd a swyddi ar waith.

16. Rhagwelir y bydd rôl gref ar gyfer Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol wrth roi cyfeiriad i'r broses o ddatblygu Fframweithiau Strategol ar gyfer ERDF Blaenoriaeth 3: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy, yn eu hardaloedd priodol ac ar gyfer blaenoriaethu prosiectau cysylltiedig. Gwelwn rôl ar gyfer y grwpiau hefyd wrth ddylanwadu ar y broses o ddatblygu Fframweithiau Strategol thematig eraill er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion is-ranbarthol.

17. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru hefyd yn datblygu ffyrdd symlach a chyflymach o weithio er mwyn gweinyddu’r rhaglenni newydd. Mae'r rhain yn cael eu dylunio i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd, gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd systemau cais a thalu, cryfhau trefniadau monitro, a gwella gwasanaethau cwsmeriaid a lleihau costau cyffredinol. Er mwyn cefnogi'r prosesau busnes newydd hyn, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn buddsoddi mewn system TG newydd ddatblygedig o'r enw PPIMS, a fydd yn cynnwys gwasanaethau ar y we i bobl sydd am wneud cais.

## Trefniadau Ymgynghori

18. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar unrhyw rai o raglenni drafft y Cronfeydd Strwythurol ac rydym yn awyddus i gynnal y momentwm hwn fel y gellir cytuno ar y rhaglenni cyn gynted â phosibl.

19. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori yn electronig ac ar bapur, ac mae modd i unigolion a sefydliadau ymateb drwy ysgrifennu, anfon ffacs, neu e-bostio blwch Post 2006 Swyddfa Cyllid

Ewropeaidd Cymru, neu drwy fynd i unrhyw un o'r gweithdai ymgynghori a drefnwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Trefnwyd y digwyddiadau hyn ar gyfer 4, 11, 18 a 29 Medi. Mae partneriaid hefyd yn trefnu eu digwyddiadau a'u cyfarfodydd eu hunain, ac mae fy swyddogion yn mynd i'r rhain lle bo hynny'n bosibl.

20. Mae'r ddogfen ymgynghori yn adeiladu ar yr ymwneud helaeth a fu eisoes gydag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid ers hydref 2005.

21. Yn dilyn dadansoddi'r ymatebion, caiff y rhaglenni eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd ddiwedd yr hydref. Bydd y dyddiad cychwyn yn amodol ar gyd-drafod y rhaglen yn llwyddiannus â'r Comisiwn Ewropeaidd dros y gaeaf, ond disgwyliwn y ceir cytundeb ddechrau 2007.

22. Bydd y Ddogfen Ymgynghori ar gyfer rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Dwyrain Cymru yn dilyn ddiwedd yr hydref. Cyhoeddir ymgynghoriad ar y Rhaglen Drawsffiniol ag Iwerddon hefyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn, unwaith y ceir cytundeb ag awdurdodau Iwerddon.

23. Bydd cyfleoedd i sefydliadau Cymru gymryd rhan mewn cydweithrediad rhyng-genedlaethol drwy raglenni Gogledd-orllewin Ewrop ac Ardal yr Iwerydd (olynydd INTERREG IIIB). Mae’r cyntaf o’r rhain (Gogledd-orllewin Ewrop) wedi’i lansio er mwyn i randdeiliaid ymgynghori arni. 22 Medi yw’r dyddiad cau ar gyfer hyn ac mae ar wefan WEFO – www.wefo.wales.gov.uk

24. Lansiwyd Rhaglen Weithredol ddrafft Amcan 3 Gogledd Orllewin Ewrop yr UE ar gyfer 2007-2013 (olynydd INTERREG IIIB) er mwyn ymgynghori â rhanddeiliaid. Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 22 Medi a gellir gweld y deunydd ymgynghori drwy wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru - www.wefo.cymru.gov.uk

## Goblygiadau Ariannol

25. Rydym wedi cael manylion ffigurau terfynol gan Gomisiwn yr UE ynghylch maint y rhaglenni newydd. Bydd y rhaglen Gydgyfeirio tua'r un maint â rhaglen bresennol Amcan 1, sef 1.85 biliwn ewro dros gyfnod o 7 mlynedd. Bydd yn bwysig bod prosiectau yn alinio'n agosach â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, a disgwyliwn wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau rhaglen ein hunain i ysgogi Cronfeydd Strwythurol.

26. Mae Cyngor Gweinidogion Ewrop (drwy COREPER) wedi cytuno y dylai fod gan bob Aelod Wladwriaeth y dewis o gynnwys dulliau cydariannu preifat yn eu rhaglenni os dymunant wneud hynny.

27. Cytunwyd ar y Rheoliadau ac fe'u cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE ar 31 Gorffennaf, ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan Europa ac mae dolen atynt o dudalennau gwe rhaglenni Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer 2007 – 2013 – http://www.wefo.cymru.gov.uk/default.asp?action=page&ID=1681

28. Bydd strwythur gwahanol y rhaglenni newydd, a sut y maent wedi'u halinio â blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ein helpu i edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o gydariannu

prosiectau a sicrhau arian cyfatebol ar eu cyfer, a fydd yn symleiddio prosesau a lleihau biwrocratiaeth.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

29. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor anfon sylwadau i swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y ddogfen ymgynghori, gan ddefnyddio'r cwestiynau ffurfiol i'r ymgynghoriad sydd yn Atodiad B.

**Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan, AC**
**Prif Weinidog**

## Atodiad A - Blaenoriaethau a Themâu Rhaglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

Bydd ERDF Blaenoriaeth 1: Gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf - yn hybu twf economaidd drwy gynnyrch a gwasanaethau sydd â gwerth ychwanegol uwch, gan alluogi busnesau i dyfu a gwella eu cystadleurwydd a'u cynhyrchiant drwy ddatblygiadau technolegol e.e. buddsoddi mewn ymchwil a datblygu, cefnogi entrepreneuriaeth, mynediad at gyllid busnes a datblygiad sectoraidd.

Thema 1: Hybu Ymchwil a Datblygu, Technoleg ac Arloesi
Thema 2: Cyllid Busnes
Thema 3: Entrepreneuriaeth
Thema 4: Cymdeithas Wybodaeth i bawb

Mae ERDF Blaenoriaeth 2: Creu amgylchedd busnes ffafriol - yn canolbwyntio ar gryfhau seilwaith economaidd strategol, gan gynnwys trafnidiaeth a TGCh. Bydd hefyd yn cynnal twf y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, ac yn helpu i ymateb i risgiau amgylcheddol e.e. datblygu ynni glân ac adnewyddadwy, annog defnyddio ynni yn effeithlon, mentrau rheoli gwastraff, defnyddio asedau morwrol a dwr mewndirol;

Thema 1: Trafnidiaeth Gynaliadwy
Thema 2: Seilwaith TGCh
Thema 3: Ynni
Thema 4: Mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol i dwf economaidd
Thema 5: Amgylchedd ar gyfer twf

Mae ERDF Blaenoriaeth 3: Adeiladu cymunedau cynaliadwy - yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag amddifadedd a gwella economïau lleol mewn modd integredig, gan ddwyn adfywio ffisegol a datblygu economaidd cymunedol ynghyd.

Thema 1: Adfywio Ffisegol
Thema 2: Datblygu Economaidd Cymunedol

Mae Blaenoriaeth 1 ESF: Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd - yn canolbwyntio ar gynyddu cyflogaeth a hybu cynhwysiant cymdeithasol drwy ddatblygu camau

gweithredu cydgysylltiedig i oresgyn rhwystrau e.e. gofal plant, ac anghymelliadau i weithio, lleihau'r risg bod pobl yn symud o waith i ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd hirdymor, hybu ffyrdd iachach o fyw a chyfle cyfartal.

Thema 1: Cynorthwyo pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy
Thema 2: Cynorthwyo pobl i aros mewn swyddi
Thema 3: Hybu cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth

Mae Blaenoriaeth 2 ESF: Gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu- yn canolbwyntio ar foderneiddio a datblygu'r economi drwy ddatblygu'r sgiliau a hyblygrwydd mentrau a gweithwyr, y rhai sy'n ymuno â'r farchnad lafur, yn arbennig pobl ifanc, a'r rhai sy'n wynebu anfantais neu rwystrau penodol. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar y bont rhwng ysgol a gwaith, gwella sgiliau sylfaenol, mynd i'r afael â bylchau a diffyg sgiliau a chefnogi cynnydd mewn cyflogaeth.

Thema 1: Darparu’r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth i’r rhai sy’n ymuno â’r farchnad lafur
Thema 2: Gwella sylfaen sgiliau’r gweithlu a chefnogi cynnydd mewn cyflogaeth
Thema 3: Gwella systemau datblygu’r gweithlu a mynd i’r afael â bylchau a diffyg sgiliau

Bydd Blaenoriaeth 3 ESF: Creu'r Cysylltiadau: moderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus - yn cefnogi buddsoddiadau wedi eu targedu yn y gwasanaethau cyhoeddus yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol gan wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch, cydlynol, effeithiol ac effeithlon, ac yn fwy ymatebol i anghenion unigolion, busnesau a chymunedau. Bydd yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu sgiliau rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus, datblygu ac ymestyn mynediad electronig, a gwella trafodaeth a chydweithredu.

Thema 1: Gweddnewid gwasanaethau cyhoeddus drwy gydweithredu mwy effeithiol
Thema 2: Gwella gallu sectorau’r gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau o safon uwch

DS: wrth weithredu pob blaenoriaeth, ystyrir yr angen i fynd i'r afael â chyfle cyfartal i bawb, a chynaliadwyedd amgylcheddol.

## Atodiad B – Cwestiynau i'r Ymgynghoriad ar Raglenni Cydgyfeirio

### Pennod 1: Y Dadansoddiad

1. Ydych chi'n cytuno â'r Weledigaeth gyffredinol ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd?

2. Ydych chi'n cytuno â'r Dadansoddiad o'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n wynebu'r Rhanbarth?

### Pennod 2: Y Strategaeth

3. Ydych chi'n cytuno â'r Strategaeth?

4. Ydych chi'n cytuno â nodau ac amcanion y rhaglenni?

5. Ydych chi'n cytuno â'r strategaeth monitro a gwerthuso?

6. Oes gennych chi farn ynghylch beth allai fod yn themâu ar gyfer camau arloesol a gweithgareddau trawswladol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop?

## Pennod 3: Blaenoriaethau

7. Ydych chi'n cytuno â ffocws y blaenoriaethau?

8. Ydych chi'n cytuno â'r dangosyddion lefel blaenoriaeth a gynigir?

## Pennod 4: Y Themâu Trawsbynciol

9. Ydych chi'n cytuno â'r amcanion a'r dull arfaethedig o brif ffrydio Cyfle Cyfartal o fewn y rhaglenni?

10. Ydych chi'n cytuno â'r amcanion a'r dull arfaethedig o brif ffrydio Cynaliadwyedd Amgylcheddol o fewn y rhaglenni?

## Pennod 5: Trefniadau gweithredu

11. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer dyrannu adnoddau yn gyffredinol?

12. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gryfhau gweithredu strategol?

13. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer Cymorth Technegol?

14. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer Pwyllgor Monitro'r Rhaglen?

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru